

DUW GYDA NI **(Gwasanaeth y Nadolig)**

Llefarydd:

'Wele bydd y wryf yn beichiogi, ac yn esgor ar fab, a gelwir ef Immanuel.'

*'Wele Dduwdod yn y cnawd,
Dwyfol Fab i ddyn yn Frawd;
Duw yn ddyn, fy enaid, gwêl
Iesu, ein Immanuel.'*

Cyd-weddiwn:

Diolchwn i ti, ein Tad am wyl y Nadolig, a'i newyddion da o lawenydd mawr iti ddod i'n byd a'n bywyd yn Iesu Grist. Wrth inni edrych ymlaen at ddathlu'r wyl hon, cynorthwya ni i amgyffred trwy ffydd, arwyddocâd y cyhoeddiad mai Duw Immanuel – Duw gyda ni – wyt ti yn Iesu Grist. O Arglwydd, bendithia ni â'r ymwybyddiaeth o'th bresenoldeb sanctaidd, a llanw ni ag ysbryd gostyngeiddrwydd, a dyhead enaid i'th addoli mewn prydferthwch sanctaidd. Gofynnwn hyn yn enw dy fab annwyl a'n Ceidwad bendigedig, Iesu Grist. Amen.

Emyn: 62 – *Pob seraff, pob sant*

Llefarydd:

Mae'n anodd gwybod pam na chafodd mwy o gapeli Cymru eu henwi yn 'Immanuel', yn arbennig o gofio mai ei ystyr yw 'Duw gyda ni'. Y mae adegau pryd rydym yn fwy ymwybodol fod Duw yn Dduw Immanuel – yn 'Dduw gyda ni' yn Iesu Grist, ac un o'r adegau hynny yw gŵyl y Nadolig. Yn wir, mae'r disgrifiad o 'Dduw gyda ni' yn ein dwyn ar unwaith i awyrgylch gŵyl y Geni.

Yn Efengyl Iesu Grist yn ôl Mathew yn unig y cawn y gair 'Immanuel'. Yn wir, mae Mathew yn dechrau ac yn cloi ei Efengyl trwy bwysleisio'r gwirionedd mawr hwn am Dduw. Yn y bennod gyntaf mae'n

dyfynnu neges un o broffwydi'r Hen Destament, *'Wele, bydd y wryf yn beichiogi, ac yn esgor ar fab, a gelwir ef Immanuel,'* hynny yw, o'i gyfieithu, *'Y mae Duw gyda ni'*. Ac yn y bennod olaf, mae'n dyfynnu addewid yr Arglwydd Iesu Grist i'w ddilynwyr, *'Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd.'*

Duw gyda ni yn Iesu Grist yw newyddion da'r Efengyl. Felly, wrth ddathlu genedigaeth Iesu Grist, mae'n bwysig nodi nad cofio digwyddiad hanesyddol yn unig a wnawn y Nadolig hwn, ond cyhoeddi gwirionedd sy'n fythol gyfoes, sef fod Duw yn Dduw gyda ni yn awr, a phob amser. Gan gofio hyn, fe wrandawn ar hanes yr angel yn cyhoeddi'r newyddion da i Joseff.

Darlleniad: Mathew 1: 18–25

Emyn: 448 – *Wele'n gwawrio ddydd i'w gofio*

Llefarydd:

Duw Immanuel, Duw gyda ni mewn gostyngeiddrwydd. Safai bachgen bach o flaen llun ei dad, a syllai yn hir ac yn boenus arno. Nid oedd wedi gweld ei dad ers misoedd lawer, a chyda hiraeth lond ei galon a dagrau yn ei lygaid, trodd at ei fam gan ddweud wrthi, *'Mam, mi liciwn i petasai Dad yn dod allan o'r llun 'ma.'*

Onid hynny, ar un ystyr, a wnaeth ein Tad Nefol yn Iesu Grist? Fe gamodd allan o lun yr Hen Destament, a chamu i mewn i hanes ein byd. A mwy na hynny hefyd, fe gamodd i mewn i'n bywyd, a'i uniaethu ei hunan â ni o'r crud i'r bedd:

*'Wele Dduwdod yn y cnawd,
Dwyfol Fab i ddyn yn Frawd.'*

Mae'r digwyddiad hwn yn peri inni ryfeddu at ostyngeiddrwydd Duw. Yn ei fab Iesu Grist, dangosodd Duw nad oedd am i'w anfeidroldeb lethu ein meidroldeb ni, na'i hollalluogrwydd lethu ein gwendid ni. Am hynny, fel y dywed yr Apostol Paul yn ei lythyr at Gristnogion Philipi:

'Er ei fod ef erioed ar ffurf Duw, ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i ddal gafael ynddo, ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd dynion.'

Y mae'r dirgelwch hwn wedi peri rhyfeddod mawr yng nghalonau Cristnogion i lawr ar hyd yr oesau, a chyda'r emynydd y dywedwn ninnau,

*'Ymhlith holl ryfeddodau'r nef
Hwn yw y mwyaf un—
Gweld yr anfeidrol, ddwyfol Fod
Yn gwisgo natur dyn.'*

Fel Cristnogion, credwn mai'r digwyddiad hwn yw'r dirgelwch mwyaf a welodd ein byd erioed. Y mae'r Ymgrawdoliad yn ddirgelwch na allwn byth ei ddirnad yn llawn ond, er hynny, fe wyddom mai dirgelwch cariad Duw ydyw, a bod ei gariad ef yn Iesu Grist yn destun cân o ddiolchgarwch am byth. Do, daeth Duwdod mewn Baban i'r byd, a heddiw, ni allwn ond ymateb mewn gorfoledd a llawenydd mawr. Gwrandawn yn awr ar hanes genedigaeth Iesu Grist.

Darlleniad: Luc 2: 1–7

Emyn: 468 – *Tua Bethlem dref*

Llefarydd:

Immanuel – Duw gyda ni mewn goleuni. Y mae'r Nadolig wedi cael ei ystyried erioed yn wyl y Goleuni. Tystiodd Ioan yn ei Efengyl fod Iesu Grist yn 'oleuni dynion', a'i fod yn oleuni sy'n *'llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef'*.

Nid yw'n rhyfedd felly fod goleuadau a chanhwyllau yn cael lle amlwg yn ein dathliadau. Mae'r arfer o oleuo canhwylau ac addurno tai yn mynd yn ôl o leiaf i gyfnod yr Ymerodraeth Rufeinig. Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, arferai'r Rhufeiniaid gynnal gŵyl i ddathlu dyfodiad y gwanwyn wedi nosweithiau tywyll a hir y gaeaf. Yn eu dathliadau, goleuent ganhwylau a choelcerthi, a rhoddent anrhegion i'w gilydd, ac

edrychent ymlaen at weld goleuni cynnes y gwanwyn yn trechu tywyllwch oer y gaeaf.

Yn gynnar yn ei hanes, fe fabwysiadodd yr Eglwys Gristnogol yr hen wyl baganaidd hon i gyhoeddi mai Iesu Grist yw Goleuni'r byd, a bod goleuni ei gariad yn gryfach na holl alluoedd y tywyllwch, fel y gwelwyd mor ogoneddus ar fore Sul y Pasg:

*'Cans llosgi wnaeth dy gariad pur bob cam,
Ni allodd angau'i hun ddiffoddi'r fflam.'*

Dywed yr Arglwydd Iesu Grist wrthym heddiw, *'Myfi yw Goleuni'r byd. Ni fydd neb sy'n fy nghanlyn i byth yn rhodio yn y tywyllwch, ond bydd ganddo oleuni'r bywyd.'*

Yn ein dathliadau eleni, gadewch, felly, i addurniadau ein cartrefi a goleuni'r goeden Nadolig ein hatgoffa, nid am ddyfodiad Siôn Corn, ond am ddyfodiad Arglwydd y goleuni i'n byd. Y mae canlyn yr Arglwydd Iesu Grist yn golygu rhodio yn ei oleuni ef, a llewyrchu ei gariad i ganol tywyllwch ein hoes.

Cyd-weddiwn:

Arglwydd y goleuni, trugarha wrthym yn nhywyllwch ein pechod. Cyffeswn inni garu'r tywyllwch yn fwy na'r goleuni, ac aros yn llawer rhy hir gyda'r pethau sy'n ceisio trechu'r goleuni, a diffodd gobaith ein bywyd. Erfyniwn arnat i'n tywys i oleuni dy Efengyl yn yr oedfa hon, fel y cawn weld ein tlodi ysbrydol, a'n hargyhoeddi o'n hangen am oleuni'r bywyd yn Iesu Grist. Dywed dy Air wrthym:

'Os rhodiwn yn y goleuni, fel y mae ef yn y goleuni, y mae gennym gymundeb â'n gilydd, ac y mae gwaed Iesu, ei Fab ef, yn ein glanhau ni o bob pechod.'

Gweddiwn am nerth dy gariad i lewyrchu dy oleuni i'n gilydd ac i'n cyd-ddynion. Gwna ni yn oleuadau effeithiol i'th fab Iesu ar ein haelwydydd, yn ein heglwysi, ac yn ein cymdogaeth, a thro ein cân o orfoledd yn foliant i ti, er mwyn dy fab a'n Ceidwad, Iesu Grist. Amen.

Emyn: 462 – *Odlau tyner engyl*

Llefarydd:

Duw Immanuel, Duw gyda ni mewn gorfoledd. Rydym wedi meddwl am y Nadolig erioed fel gŵyl o orfoledd mawr, ac unwaith eto, fe roddir cyfle i ni brofi o orfoledd Efengyl ein Harglwydd Iesu Grist.

Am ryw reswm, tueddwn i anghofio'r ffaith fod y pedair Efengyl yn portreadu Iesu Grist fel person ifanc bywiog a llawen. Yn hytrach, mae darlun y proffwyd Eiseia ohono fel gŵr gofidus a chynefin â dolur wedi cael llawer mwy o sylw. Y mae hyn, o gofio'r hyn a ddigwyddodd i'r Iesu ar Galfaria, wrth gwrs, yn ddealladwy, ond mae'n bwysig cofio tystiolaeth yr Efengylau fod Iesu Grist yn berson llawen ei ysbryd, ac iddo ddwyn gorfoledd mawr i fywydau llawer iawn o bobl. Yn wir, fe barodd orfoledd i lawer pan oedd yn faban bach ar lin ei fam Mair. Gadewch inni wrando ar nifer o adnodau sy'n tystio i'r llawenydd hwn.

Llefarydd:

'Y mae fy enaid yn mawrygu'r Arglwydd, a gorfoleddodd fy Ysbryd yn Nuw, fy Ngwardwr.'

'Pan glywais dy lais yn fy nghyfarch, dyma'r plentyn yn fy nghroth yn llamu o orfoledd.'

'Dychwelodd y bugeiliaid gan foli a gogoneddu Duw am yr holl bethau a glywsant ac a welsant, yn union fel y llefarwyd wrthynt.'

'A phan welsant y seren yr oeddent yn llawen dros ben.'

Yn ddiamau, mae gorfoledd yn un o nodweddion amlycaf y bywyd Cristnogol, ac onid felly y dylai fod, gan ei fod yn tarddu o galon Duw ei hun, ac yn ffrydio yng nghalonau'r rhai sy'n credu yn ei fab Iesu Grist? Sail ein gorfoledd yw bod Duw gyda ni yn ei Fab, ac fe rydd hynny sicrwydd inni y bydd popeth yn iawn. Nid oes gan y dyn seciwlar y cysur hwn ar daith bywyd, a thra cefna ar Dduw, fe fydd rhaid iddo ymgodymu â'r ymdeimlad poenus o unigrwydd llethol. Ond y newydd da o lawenydd mawr yw nad ydym ar ein pennau ein hunain. Mae Duw gyda ni, ac mae credu hyn ar daith bywyd yn esgor ar orfoledd yn ein calonnau.

Fe ddywedodd yr Arglwyddes Grey am ei gŵr enwog, Syr Edward Grey, *'He lit so many fires in cold rooms'*. Pa faint mwy felly yr Arglwydd Iesu Grist. Onid hynny a wnaeth yng nghalonau'r rhai a aeth i'w weld yn faban bach yn ei grud? Yn y gwasanaeth hwn, estynnir cyfle i ni hefyd fynd yn ein dychymyg i Fethlehem i weld achos y llawenydd mawr. Awn ar ein taith, ac ymatebwn i alwad y bardd Cynan:

'Am hynny, llawenhewch yn yr Arglwydd, fy nghyd-Gristionogion,
Llawenhewch am na ellwch ddim ohonoch eich hunain,
Llawenhewch am mai eithaf dyn yw cyfle Duw,
Llawenhewch am mai Iesu Grist yw'n hunig lachawdwr,
lachawdwr y byd, a minnau, – a thithau, – a thithau.
Llawenhewch na ddiffoddir byth mo'i Seren Ef.
Llawenhewch gyda Mair a Joseff,
Llawenhewch gyda'r Bugeiliaid a'r Doethion,
Llawenhewch gyda'r Gwirioniaid a'r Merthyri.
Gyda holl lu'r nef, llawenhewch.'

Darlleniad: Luc 2: 8–20

Emyn: 463 – *O deuwch, ffyddloniaid*

Llefarydd:

Duw Immanuel – Duw gyda ni mewn dioddefaint. Os yw goleuni yn amlwg yn hanesion genedigaeth Crist, mae'n bwysig cofio mai llewyrchu a wnaeth y goleuni yng nghanol y tywyllwch.

Yr un modd llawenydd. Rydym yn dathlu gŵyl y geni mewn llawenydd yng nghanol byd digroeso a chreulon iawn. Yn wir, mae'r nos, a naws y nos, yn amlwg iawn yn hanes y doethion a'r bugeiliaid. Cofiwn hefyd mai yn hwyr y nos y cymerodd Joseff ei gymar Mair a'i blentyn Iesu allan o Fethlehem, gan ffoi i'r Aiff rhag llid a dicter y brenin Herod. Am hynny, yn ein llawenydd, ni allwn anghofio'r wedd dywyll a dioddefus sy'n perthyn i ŵyl y Geni. Do, fe gafodd Iesu Grist groeso calon gan yr ychydig, ond croeso digon oeraidd a gafodd gan eraill. Bu raid i'w rieni chwilio am lety, medd Luc, *'am nad aed oedd lle iddynt yn y gwesty'*, a phan glywodd Herod am eni Iesu Grist, fe'i cythruddwyd

gymaint nes *'rhoi gorchymyn i ladd pob un o'r plant ym Methlehem a'r holl gyffiniau oedd yn ddwyflwydd oed neu lai.'*

Felly, dod i fyd digroeso a chreulon a wnaeth Iesu Grist, byd y llety llwm a chynllwynion twyllodrus Herod, byd rhoi trethi trymion ar werin dlawd Israel, a thywallt gwaed bechgyn bach ym Methlehem, a byd lle clywyd wylofain a galar y gwragedd na fynnent eu cysuro.

Llefarydd:

Mae problem dioddefaint yn ein byd wedi peri dryswch meddwl i ddyn erioed, a'i arwain i ofyn cwestiynau megis, pam y mae cymaint o ddiodefaint, a beth y mae Duw yn ei wneud i'w helpu?

Nid yw'n hawdd rhoi atebion boddhaol ond, fel Cristnogion, rydym yn cyhoeddi eto'r Nadolig hwn fod Duw gyda ni yng nghanol dioddefaint ein byd, ac yn ei uniaethu ei hun yn llwyr â thrallodion a holl ofidiau dynol-ryw. Gwyddom iddo wneud hynny yn llwyr ym mherson ei fab Iesu Grist. Nid aros yn faban bach yn niogelwch ei grud a wnaeth Iesu Grist, and tyfu yn ŵr ifanc a brofodd fywyd yn ei amrywiaeth mawr – yn ei lawenydd a'i ddedwyddwch, ac yn ei galedi a'i chwerwder. Mae hyn yn cysylltu'r crud ym Methlehem â chroes Calfaria, lle yr uniaethodd Iesu Grist ei hun yn llwyr â ni, *'gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes'*.

Am hynny, nid ydym fel Cristnogion yn aros yn ormodol gyda'r darlun o'r baban Iesu yn ei grud, ond gyda'r baban a dyfodd yn ŵr ifanc, ac a ddiodefodd waradwydd y groes, a thrwy'r groes orchfygu pechod, angau a'r bedd. Y mae Duw yn Iesu Grist yn Dduw Immanuel – yn Dduw gyda ni heddiw. Ynndo ef y mae sicrwydd ein hiachawdwriaeth, a gobaith ein byd. Gadewch inni ddangos ein gorfoledd yn ein haddoliad iddo, ac yna, wedi'r oedfa hon, mynd allan i'r byd mawr i ganmol ei enw, ac i wasanaethu ein hoes. Amen.

Cyd-weddiwn:

O Arglwydd ein Duw, diolchwn am y cyfle a gawsom i baratoi ein hunain i ddathlu genedigaeth dy fab annwyl Iesu Grist. Yn ystod y dyddiau nesaf, cadw ein golygon ar y seren, fel yr awn i Fethlehem i weld y baban Iesu yn ei grud, ac i ryfeddu fod

*‘Y gair tragwyddol mewn preseb heb fedru gair,
Brenin y brenhinoedd, ond yn fab i Mair,
Yn Arglwydd y Gogoniant, ond yn cysgu yn y gwair.’*

Yng nghanol byd sy'n llawn o newyddion drwg a thrist, diolchwn am y newyddion da fod Iesu Grist yn Dduw Immanuel, yn Dduw gyda ni mewn gostyngedd, yn Dduw'r goleuni na all y byd ei ddiffodd, yn Dduw gyda ni yn llawenydd i'n heneidiau, ac yn Dduw sy'n gymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder.

O Dduw Immanuel, edrych yn drugarog ar dy blant sy'n dioddef anghyfiawnder a phoen, ac yn methu gweld goleuni na gobaith yn unman. Yn dy drugaredd, dros yr ŵyl hon, tywys yr amddifad i gymdeithas dy bobl, yr unig i gwmni teulu, y tlawd at fwrdd y cyfoethog, a'r claf i iechyd a nerth. A boed i ninnau wneud ein rhan yn ysbryd dy gariad, ac er clod i'th enw, yn Iesu Grist. Amen.

Emyn: 452 – *Clywch lu'r nef yn seinio'n un*

Y Fendith:

Bendigwn dy enw am brofi cynhesrwydd dy gariad ac agosrwydd dy berson yn y gwasanaeth hwn. O Dad, caniatâ i'r profiad hwn aros yn fendith yn ein calonnau, ac yn sicrwydd y byddi gyda ni'r Nadolig hwn, a chyda dy blant ym mhob man.

Ac yn awr, i ti, ein Tad Nefol a sanctaidd, ac i'th fab Iesu Grist a'n tywysodd o dywyllwch i oleuni'r bywyd, ac i'r Ysbryd Glân, y byddo'r clod a'r gogoniant. Amen.